LGF 15
Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)
Local Government Finance (Wales) Bill
Ymateb gan: Awdurdod Cyllid Cymru
Response from: Welsh Revenue Authority

**Awdurdod Cyllid Cymru**

**Tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar gyfer craffu cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Diolch am ein gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ('y Bil') yr ydym yn teimlo y gallwn ni, ac sy'n ymwneud â'n profiad fel awdurdod cyllid cenedlaethol Cymru.

Mae rhannu ein profiad wrth gasglu gwybodaeth gan drethdalwyr yn berthnasol i Adran 12 y Bil sy'n ymwneud â gwybodaeth sydd angen i'r cyhoedd yng Nghymru ei rhoi i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA).

Rydym yn adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru, a ffurfiwyd yn 2017.
Fel sefydliad bach, aml-sgiliau o dros 80 o arbenigwyr neu weithwyr proffesiynol, rydym yn rheoli 2 dreth ddatganoledig:

- Treth Trafodiadau Tir (TTT) a delir pan fyddwch yn prynu neu'n prydlesu adeilad neu dir dros bris penodol
- Treth Gwarediadau Tirlenwi (TGT) a delir pan fydd gwastraff yn cael ei waredu i safle tirlenwi neu rywle arall

Drwy weithio gyda threthdalwyr a'u cynrychiolwyr, sefydliadau partner a'r cyhoedd, rydym yn sicrhau bod trethi'n cael eu casglu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol.

**Hunanasesu**

Mae ein dwy dreth yn cael eu hunanasesu, sy'n golygu bod gofyn i'r trethdalwr gyflwyno ffurflen dreth sy'n cynnwys amrywiaeth o wybodaeth yn cefnogi eu cyfrifiad o’r dreth sy'n ddyledus. O ran y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) mae'n rhaid darparu gwybodaeth yn dilyn trafodiad ac felly mae'n seiliedig ar ddigwyddiad (prynu eiddo neu dir). O ran y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae'n rhaid cyflwyno gwybodaeth ar gyfer gwaredu deunydd i dirlenwi ac mae hynny'n digwydd yn gyfnodol (ffurflenni chwarterol).

Nid yw trethi lleol yng Nghymru yn cael eu hunanasesu (h.y. y wladwriaeth yn hytrach na’r trethdalwr ei hun sy’n cyfrifo'r atebolrwydd treth), felly’n hanesyddol mae’r cymhariaeth uniongyrchol â chyfrifiad atebolrwydd trethi datganoledig wedi bod yn weddol gyfyngedig. Fodd bynnag, mae Adran 12 y Bil yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar drethdalwyr i ddarparu gwybodaeth i'r VOA yn fwy rheolaidd. Yn hyn o beth, mae ein profiad o ddelio â'r cyhoedd yn fwy perthnasol. Mae'n darparu tystiolaeth o fanteision creu perthynas o ymddiriedaeth gyda defnyddwyr eich gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth gywir ac amserol.

**Ein dull**

Mae profiad ACC o weithredu trethi yng Nghymru wedi'i lunio gan y dull rydym wedi'i fabwysiadu ers i ni ddechrau casglu trethi bron i 6 blynedd yn ôl. Yn ei hanfod, mae'r dull rydym wedi'i fabwysiadu yn rhoi ymddiriedaeth wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio gyda threthdalwyr a'u hasiantau. Rydym yn defnyddio tri therm i ddiffinio'r dull hwn:

**Cydweithio** - sydd ag ymdeimlad o weithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin

**Cadarnhau** - sy'n awgrymu cadernid y gellir dibynnu arno. Mae hyn yn ymwneud â rhoi sicrwydd, bod yn gywir ac atgyfnerthu ymddiriedaeth

**Cywiro** - sy'n ymwneud â'r ffordd rydym yn cydweithio â chi ddatrys gwallau neu bryderon.

Mae ein profiad o ddefnyddio'r ffordd hon o weithio wedi bod yn un cadarnhaol gan ei bod yn creu perthnasoedd agored, cytûn â'r cyhoedd er gwaethaf y ffaith ein bod yn rhyngweithio â nhw ar faterion sydd fel arfer yn gallu bod yn eithaf cymhleth a gofidus.

Yn ymarferol felly, rydym yn annog pobl i gysylltu â ni os oes angen help arnynt, gan rymuso ein staff i allu cymryd amser ar alwadau i helpu pobl, fan feithrin ymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd ac ACC. Rydym wedi canolbwyntio ar wneud ein canllawiau'n hawdd eu deall, gan roi hyfforddiant ac offer i ddefnyddwyr i'w cynorthwyo i gyfrifo'r meysydd treth cymhleth ac rydym yn annog pobl i ddefnyddio ein gwasanaeth opiniwn treth.

Rydym yn cydnabod bod rhai elfennau o'r system dreth yn fwy cymhleth neu'n anoddach i'w dehongli nag eraill. Efallai na fydd trethdalwyr yn talu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir os nad ydym yn eu helpu i ddeall sut i ddefnyddio'r rheolau'n gywir.

Rydym wedi datblygu ein gallu dadansoddi data er mwyn deall yn well y wybodaeth a gawn o'r 60,000 o ffurflenni treth a gyflwynir gan drethdalwyr a'u cynrychiolwyr bob blwyddyn. Yn ogystal â dadansoddi data, rydym yn dysgu o ymholiadau, data gweithredol, a gwaith mewnwelediad cwsmeriaid. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth gyfunol hon ochr yn ochr ag arbenigedd cynyddol ein sefydliad er mwyn adnabod tueddiadau, risgiau treth sy'n dod i'r amlwg, a risgiau treth posibl yn gynnar.

Rydym yn cynnal gweithgarwch ymgysylltu, ymchwil ac ymholiadau treth er mwyn datblygu dealltwriaeth gyflawn o'r risgiau treth. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn a'r hyn a ddysgir o'i gynnal yn hanfodol er mwyn deall pam fod gwallau'n digwydd ac mae'n caniatáu i ni ddatblygu atebion effeithiol, wedi'u targedu. Mae hyn yn rhoi mwy o wybodaeth a dysg i ni, sydd yn ei dro yn ein galluogi i ddiweddaru'r wybodaeth

sydd ei hangen arnom a gwella ein canllawiau a'n cefnogaeth i drethdalwyr fel bod ganddynt well dealltwriaeth o’r hyn y mae angen iddynt ei gyflwyno

**Ein barn ni**

Mae gennym ystod eang o bwerau gwybodaeth a gorfodi ar gael i ni, gan gynnwys cosbau sifil, er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad trethdalwyr, nad yw’n cydymffurfio. Mae'r pwerau sifil yn y Bil ar gyfer mynd i'r afael â pheidio â darparu gwybodaeth gywir, sy'n berthnasol i atebolrwydd treth leol, yn ymddangos yn debyg o ran bwriad er nad ydynt yn union yr un fath. Felly, o ran y ddeddfwriaeth, mae ein profiad ni’n awgrymu y gall y darpariaethau ganiatáu i berthynas gytûn, debyg gael ei meithrin.

Fodd bynnag, ein profiad yw nad yw’r gallu i ddarparu polisi effeithlon, er ei fod yn amlwg yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth briodol, yn dod i ben gyda’r ddeddfwriaeth, ond yn hytrach dyna’r man cychwyn. Y berthynas â'r cyhoedd sy'n allweddol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth yn esmwyth. Mae ein dull ni o weithredu’n rhoi pwyslais ar adeiladu ymddiriedaeth a chefnogi'r mwyafrif helaeth o drethdalwyr sy'n cydymffurfio, i wneud yr hyn sydd angen iddynt ei wneud. Mae ein profiad wedi bod yn broses gytûn lle rydym wedi canolbwyntio ar weithio gyda threthdalwyr, asiantau, a'r cyrff sy’n eu cynrychioli i'w helpu i roi gwybodaeth gywir yn hawdd i ni fel y gallant gael eu hasesiad treth yn iawn y tro cyntaf. Mae hyn yn lleihau'r risg treth a nifer yr achosion lle mae angen defnyddio pwerau ffurfiol.

Mae'r dull hwn wedi gweithio i ni ac mae meithrin ymddiriedaeth gyda threthdalwyr trwy fod yn gefnogol ac yn onest wedi creu amgylchedd gwaith cadarnhaol i'n pobl ac amgylchedd y mae trethdalwyr yn teimlo'n ddiogel i rannu gwybodaeth â ni.

Dyfed Alsop

**Prif Weithredwr**
**Awdurdod Cyllid Cymru**

dyfed.alsop@wra.gov.wales

19 Ionawr 2024